CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
COFNODION CYFARFOD MISOL 27ain O AWST 2009 AM 7.30PM
FESTRI CAPEL SHILOH, LLANBEDR PONT STEFFAN

YN BRESENNOL
Cyng Maer Selwyn Walters (Cadeirydd);
Cyng. Robert Phillips (Is-Gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Andrew Carter;
Elsie Dafis; Margaret Davies-Evans;
Kistiah Ramaya; Chris Thomas,
Dorothy Williams & Derek Wilson;
Cyng. Tref a Sirol Robert (Hag) Harris;
Arolygydd yr Heddlu Nicola Carter;
Swyddog Cymorth Cymunedol Cefnogol yr Heddlu Ryan Jones;
Mr Nathan Yates – Gohebydd y Wasg y Cambrian News;&
Gohebydd y Wasg Mr Carl Stringer (gweithio ar liwt ei hun).

1. CROESO'R CADEIRYDD
Croesawodd y Maer Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod. Boed i'r Gyng. Davies-Evans arwain aelodau mewn gweddi.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Tref John Davies, Greg Evans, Lynda Mason-George a'r Cynghorydd Sirol Ivor Williams.
Roedd aelodau'n flin i glywed am farwolaeth mam y Cyng. John Davies.
Penderfynwyd cyfleu cydymdeimlad dwysaf y Cyngor Tref yn ystod yr adeg trist hwn.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL
Dim.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU
Ymysg y materion a drafodwyd oedd y canlynol:

4.1 Ardal Gwahardd Alcohol Arfaethedig(AGAA) ar gyfer Llambed:
Y mae Cyngor Sir Ceredigion wedi derbyn cais ar y cyd rhwng Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a Heddlu Dyfed-Powys i gyflwyno Gorchymyn Yfed Alcohol Mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig (Llanbedr Pont Steffan) 2009 o dan Adran 13 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001.
Effaith y gorchymyn yw gwahardd yfed alcohol o fewn mannau cyhoeddus dynodedig o dan amgylchiadau penodol. Mae copi o'r Hysbyseb a luniwyd gan y Cyngor Sir a'r map yn dangos yr ardal arfaethedig wedi eu hamgau (Atodiad 1). Bydd y Gorchymyn yn caniatau i gwnstabl yr heddlu (a phobl eraill a achredir o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002) ofyn i berson mewn man cyhoeddus dynodedig i beidio ag yfed alcohol yn y fan honno os yw'r swyddog yn credu o fewn rheswm iddo yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus dynodedig, neu ei fod yn bwriadu gwneud hynny, ac i ildio'r alcohol neu unrhyw beth yn ei feddiant sydd yn alcohol neu y creda'r swyddog o fewn rheswm sydd yn alcohol, ac unrhyw gynhwysyddion sydd ar agor neu wedi eu selio sydd ym meddiant y person hwnnw. Dylid nodi na fydd y gorchymyn yn ei gwneud yn drosedd troseddol i yfed alcohol o fewn ardal ddynodedig. Cyflwynir trosedd os bydd yr unigolion yn gwrthod cydymffurfio â chais y cwnstabl i beidio ag yfed a/neu ildio'r alcohol.

Roedd rhai aelodau wedi gobeithio y gallai wedi bod yn bosibl i gyflwyno Gorchymyn llymach a olyga y byddai anghyfreithlon i yfed alcohol o gwbl o fewn yr ardal ddynodedig. Eglurodd Arolygydd yr Heddlu Carter fod y fath orchymyn wedi bod yn effeithiol yn nhref Aberystwyth ers pan ei gyflwynwyd ym 2005.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori yn Llambed ar y 5ed o Awst ac i orffen ar y 30ain o Fedi 2009. Mae'r heddlu a'r cyngor sir wedi ymgymryd â dosbarthu llythyron i bob tŷ/ adeilad o fewn yr ardal arfaethedig.

Pwyslesiwyd y dylai aelodau'r cyhoedd, gan cynnwys y rhai hynny a driga tu allan i'r ardal arfaethedig, wneud eu gorau glas i ymateb yn bositif i'r ymgyrch, mewn ymgais i gryfhau'r ddadl dros y Gwaharddiad. Mae'r CT wedi cytuno eisoes, i dalu hanner y gost, i fyny at £2,500. **Gall unrhyw un sydd yn dymuno cyflwno sylwadau dros neu'n erbyn y gorchymyn, ysgrifennu at y Cyngor, (d/o Elin Prysor, Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Sir Ceredigion, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 OPA rhwng y 6ed o Awst a'r 30 o Fedi 2009.**

4.2 **Mae canlyniad y cais am gymhorthda**l gan yr Heddlu ar gyfer y Prosiect Cae Maesyderi a enwebwyd ar ran y Cyngor Tref gan SCCH Ryan Jones, heb fod yn hysbys, cyn belled.

4.3 **Bydd swydd gweinyddiaeth** ran-amser ar gael yn fuan yng Ngorsaf yr Heddlu yn Llambed. Gobeithir cyflogi person â gwybodaeth o'r ardal leol.

4.4 **Problemau Traffig – Stryd y Felin –** mae'r heddlu'n monitereiddio'r sefyllfa.

5. **CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 30AIN O ORFFENNAF 2009**

Derbyniwyd cofnodion mis Gorffennaf fel rhai cywir arwahân i'r canlynol:

Pwynt 8.1:**Amcanbris y safle ar y we** newydd yw £775 ac nid £650 fel y dyfynnwyd.

Pwynt 12.5:**Ysgrifennwyd, *Cyhoeddodd Mrs Morfudd Slaymaker*** *fod perthynas iddi sef Mr Gabriel Restucha wedi ei ethol yn Faer Gaiman, Patagonia ym mis Tachwedd 2008 am gyfnod o bedair blynedd.* Bydd Mrs Slaymaker yn cyfleu cyfarchion dinesig ac yn cyflwyno tarian i Faer Gaiman, Patagonia, ar ran y Cyngor Tref, yn ystod ei hymweliad ar ddigwydd, i Batagonia.

6. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 **Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref:** derbyniwyd dyfynbris gan Garej Forge, Cwmann ar gyfer hysbysfwrdd newydd. Penderfynwyd ceisio dau ddyfynbris (clustnodwyd y swydd i'r Cyng. Derek Wilson) ar gyfer y cyfarfod hwn (heb ei gyflawni). Bydd Y Cyng. Wilson yn cyflwyno ei syniadau terfynol i'r Cyngor Tref yn ystod y cyfarfod nesaf.

6.2 **Biniau Ail-gylchu ar gyfer y dref:**– y mae'r trwydded wedi ei ganiatau gan GSC i leoli un bin ar Stryd y Farchnad (£230 Deddf Priffyrdd 1980 – Adrannau 171, 181 a 182; cais i osod, cadw a cynnal offer yn y stryd). Archebir y ddau fin yn awr d/l Cynllun Trefi Taclus.

6.3 **Parc-yr-Orsedd:** archebwyd 5 o feinciau newydd ar gyfer y parc d/l y Cynllun Trefi Taclus: yn dal i ddisgwyl amdanynt.

6.4 **2 Arwydd Stryd -Parc St. Germain-sur-Moine**,Cyflwynodd y Cyng. Phillips yr hyn yr oedd yn argymell, parthed dyluniad yr arwydd. Penderfynwyd ar y dyluniad sylfaenol. Rhoddwyd caniatâd i'r Cyng. Phillips i fwrw ymlaen â'r archeb sef £150/yr arwydd.

6.5 **Clos Glyndŵr:** Y mae'r arwydd yn datgan y geiriau *Glyndwr* wedi ei brynu gan y Cyngor Sir ac yn barod i'w osod ar eiddo Mr Simon Anderson. Holwyd am

arwydd â'r geiriau *Clos Glyndŵr* ac fel canlyniad cytunwyd i ymgymryd ag ymholiadau pellach â'r Cyngor Sir.

6.6 **Cyngor ar Bopeth:** parthed cais y CT am gyflwyniad. Mae trefniadau ar y gweill i gynrychiolwyr i fynychu'r cyfarfod mis Hydref y Cyngor Tref.

6.7 **Cŵn yn Baeddu: Mae'r ran helaeth o'r** 500 o daflenni a dderbyniwyd dan law'r Cyngor Sir yn dwyn y teitl "Canllawiau i Berchnogion Cŵn Ceredigion" wedi eu dosbarthu i breswylwyr y dref. Y mae *Ymgynghoriad Rheoli Cŵn* yn mynd yn ei flaen gan GSC. Byddent yn ddiolchgar pe gallai'r Cyngor Tref nodi mannau yn yr ardal a fyddai'n elwa o Orchmynion Cŵn. **Penderfyniad: *i gwblhau'r holiadur a'i gyflwyno i'r CSC erbyn diwedd Medi.***

6.8 **Shelter Cymru: parthed yr wasanaeth yn Llambed;** yn disgwyl cylwed oddi wrthynt.

6.9 **Adroddwyd bod tua chwarter yr arwydd** stryd yn datgan y geiriau 21-26 Bryn-yr-Eglwys/Penbryn wedi cael ei dorri i ffwrdd. Hefyd yr arwydd â'r geiriau Maesyderi/ Gwêl y Creuddyn sydd wedi ei leoli o flaen Eglwys San Pedr, y mae wedi colli ei siap. Adroddwyd at sylw'r CSC ac yn disgwyl clywed oddi wrthynt.

6.10 **Bydd y Cyng Wilson yn clustnodi** sylw pellach i'r Bwrdd Anrhydeddu sydd angen ei docio.

6.11 **Problemau Trafnidiaeth Llambed**

6.11.1 Maes Parcio'r Rookery

Adroddodd y Cyng. Harris y byddai'r Cyngor Sir yn ymgymryd â newidiadau i'r mynedfa er mwyn sicrhau digon o le ar gyfer bysiau a loriau trwm hir a llwythog. Gallai hyn olygu bod 2-3cwrbyn yn cael eu diddymu. Codir tâl ar gyfer bysiau. Gresynwyd y ffaith gan rai aelodau bod bysiau'n parcio yn ardal Pontfaen.

6.11.2 Maes Parcio'r Cwmin

Mae'r CT wedi mynegi ei gefnogaeth i gais y CSC i gyflwyno mesuriadau yn ymwneud â pharcio ar y Cwmin, os gellir gorestyn obligiadau cyfreithiol h.y. parcio am gyfnod cyfyngedig ar gyfer holl gerbydau heb godi tâl. *Yn disgwyl ateb oddi wrthynt.* Mae aelodau'r cyhoedd wedi lleisio pryder ynglŷn â'r system bresennol ar Res Harford sy'n caniatau cerbydau i barcio o flaen eu tai. Byddai llinell felen o fudd. Cytunwyd i gysylltu â''r Cyngor Sir.

6.11.3 Lôn Picton

Mae'r CT wedi croesawu'r cynnig i gyflwyno cynllun ar y cyd (rhwng y CT a'r CSC) parthed y problemau trafnidiaeth a welir yn Lôn Picton. Golyga hyn bod y CT yn ariannu'r gost, sef £1,000 i gau'r lôn am gyfnod o dri mis yn gychwynnol. Bydd y Cyngor Sir yn cwrdd â'r gost o ddarparu a gosod mewn lle bolerdi sy'n cloi, i'w lleoli pen draw pob ochr. Gall y bolerdi eu gosod mewn safle *i fyny* i atal cerbydau rhag mynd heibio, neu eu *tynnu'n ôl o dan y lôn* i ganiatau cerbydau i fynd heibio. Byddai allweddi ychwanegol ar gael ar gyfer y gwasanaethau brys, i ganiatau mynedfa ar eu cyfer. Byddai arwyddion dros dro yn cael eu harddangos er mwyn hysbysu modurwyr bod y lôn ar gau. Bydd y trefniant hwn yn cynnig y cyfle i arbrofi ar ba ben dylid ei gau ac opsiynau gwahanol ar gyfer y bolerdi. Ni wireddir y cynllun cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

6.12 **Arwydd newydd ar fynedfa'r dref – Ffin Sir Gâr**

Ebost oddi wrth Katy Spain CSC ar y 7/07/2009 yn mynegi bod y CS Ceredigion yn disgwyl caniatâd gan GS Caerfyrddin ynglŷn â'r obligiadau cyfreithiol. Ar ôl derbyn y caniatâd bydd yn ofynnol i'r CSC i gysylltu â'r tirfeddianwr a bydd yn rhaid derbyn hawl ysgrifenedig oddi

wrtho. Ar ôl hynny bydd y CSC yn medru bwrw ymalen â gosod yr arwydd mewn lle, ar amser cyfleus.

7. GOHEBIAETH

7.1 Cais oddi wrth un o drigolion Heol y Gogledd, Llambed i osod croesfan ar gyfer cerddwyr ar Heol y Gogledd am resymau diogelwch. Cytunwyd i drosglwyddo'r llythyr at sylw'r Cyngor Sir yn mynegi bod y CT yn hollol gefnogol i unrhyw fesuriadau sydd o gymorth i hybu diogelwch cerddwyr ar Stryd y Gogledd. Gofynnir tybed a fyddai'n bosibl i leoli croesfan pelican ar yr heol.

7.2 Dwy flynedd yn ôl boed i'r Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno dogfen ymgynghorol sef *Cymuned ar y Cyd: Meithrin cydberthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a Thref* a oedd yn argymell bod cytundebau siarter yn cael eu gosod mewn lle rhwng awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref. Y mae Cyngor Tref Aberystwyth wedi penderfynu mabwysiadu'r fath siarter. Y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn paratoi Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i'w ystyried yn San Steffan. Os caiff y gorchymyn ei dderbyn bydd yn anghenrheidiol i wieithredu'r siarter ymhob sir yng Nghymru. Nid yw'n fwriad i ychwanegu haen fiwrocrataidd arall i lywodraeth leol ond i gynhyrchu dogfen a fydd yn hybu'r bartneriaeth rhwng yr awdurdod leol a chynghorau tref a chymuned. Holodd Clerc y Dref Aberystwyth sef Mr Jim Griffiths, farn y CT ynglŷn â'r mater. Penderfynwyd clustnodi sylw i'r ddogfen berthnasol cyn cyflwyno ymateb. (dosrannwyd i'r aelodau. Mae'r ddogfen *Cymuned ar y Cyd* a *Rhannu Cyfrifoldeb* a luniwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym 2007 ar gael d/l'r Clerc).

7.3 Panel Dyfarnu Cymru : Adroddiad Blynyddol 2008-09: er gwybodaeth

7.4 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cynllun Gweithredu Lleihau Risg 2009/10: yn diolch i'r CT am ei sylwadau ar Gynllun Gweithredu Blynyddol Drafft Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2010/2011.

7.5 Rhaglen Hyfforddiant Genedlaethol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru: Modwl Un – Y Cyngor; Modwl 2 – Y Cynghorydd; Modwl 3 – Y Cyngor yn Gyflogydd. £25/modwl. Penderfynwyd ariannu i fyny at 3 lle/modwl Dylai cynghorwyr sydd â diddordeb i fynychu'r cyrsiau i gysylltu â'r Clerc.

7.6 Wythnoas Cymru Daclus 2009: 21-27 o Fedi: Cytunwyd i beidio a chymryd rhan.

7.7 Tai Cantref: CBC: 10.09.2009:7pm: Canolfan Morlan Aberystwyth: Bydd y Cyng. Harris ac o bosibl y Cyng. Carter yn mynychu'r cyfarfod hwn.

7.8 Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.

8. MENTER LLAMBED

8.1 GWEFAN Y CYNGOR TREF

Cyflwynodd y Cyng. Phillips y briff ar gyfer y safle ar y we arfaethedig y CT. Derbyniwyd yr hyn yr oedd yn argymell. Gwahoddir cynigion- dyddiad cau 21ain o Fedi. Enw'r parth fydd lampeter-tc.gov.uk. Gan fod y Cyngor Tref yndefnyddio'r enw hwn i drosglwyddo presenoldeb ar y we ar gyfer y sector cyhoeddus dylai'r safle gwrdd â Chanllawiau, Amodau ac e-Hygyrchedd ar gyfer gwefannau Llywodraeth DU a'r Fframwaith ar gyfer Llywodraeth Leol, i gynnwys materion megis hygyrched, metadata, PICS/ICRA, labelu a diogelwch.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 Mae'r ceisiadau canlynol wedi eu caniatau gan Gyngor Sir Ceredigion:

Dyddiad yr hysbyswyd	Ymgeisydd a'r bwriad	Lleoliad

gan GSC		
19/08/2009 Rhif y Cais: A090061	Mr C Doughty *Newid defnydd i un fflat llawr gwaelod ac un maisonette deulawr tair ystafell wely uwchben*	31 Stryd Fawr Llambed
19/08/2009 Rhif y Cais: A090062LB	Mr C Doughty *Newid defnydd i un fflat llawr gwaelod ac un maisonette deulawr tair ystafell wely uwchben i gynnwys newidiadau mewnol ac allanol*.	31 Stryd Fawr Llambed Caniatâd Adeilad Rhestredig
28/07/2009 Rhif y Cais; A090338	Milfeddygon Steffan *Adeiladu estyniad y tu cefn ac wrth ymyl, er mwyn creu ystafelloedd newydd ar gyfer ymgynghori*	Hafanedd Stryd San Thomas Llanbedr PS

9.2 Derbyniwyd y ceisiadau canlynol gan GSC:

Dyddiad yr hysbyswyd gan GSC	Ymgeisydd/ Lleoliad / Bwriad	Sylwadau
13/08/2009 Rhif y Cais: A090566	Mr & Mrs C Jones Coed y Glyn Lôn Glynhebog Llambed *Amrywio amod rhif 4 (Caniatâd Cynllunio A090566) – adolygiad yn ymwneud â'r briffordd*	Dim gwrthwynebiad (sylwadau wedi eu cyflwyno gan ddirprwyiaeth y Cyngor Tref -14 diwrnod)
13/08/2009	Kevin Thomas Datblygiad Moelfre Capel Iwan *Codi tŷ a garej* *Plot 4, Maeshyfryd, Heol y Wîg, Llambed.*	Dim gwrthwynebiad (sylwadau wedi eu cyflwyno gan ddirprwyiaeth y Cyngor Tref -14 diwrnod)
26/06/2009 Rhif y Cais; A090586av	Archfarchnad y Co-op Cyf Heol y Bont Llambed *Arddangos arwyddion (2 arwydd fascia, 3 arwydd pylon a 3 o bolion baneri & baneri)*	Dim gwrthwynebiad.

9.3 Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC: Cofnodion 8fed o Orffennaf a'r Agenda y cyfarfod 12/08/2009: er gwybodaeth.

9.4 Rheol 14 diwrnod ar gyfer dychwelyd Ceisiadau Cynllunio i GSC. Ar hyn o bryd dirprwyir swyddogaethau i'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd i ymateb i geisiadau cynllunio a gyfyd rhwng cyfarfodydd. Derbyniodd y mater sylw yng nghyfarfod Un Llais Cymru o'r 15fed o Orffennaf ble dywedwyd y dylai'r ceisiadau gael eu hystyried gan nifer uwch o aelodau, cyn cael eu cyflwyno i GSC – i geisio eglurhâd ar y mater oddi wrth Un Llais Cymru. Yn yr ymateb dywedwyd ei bod mewn lle i'r Cyngor Tref drefnu is-bwyllgor i ystyried y

mater ond dylai'r pwyllgor fod yn fwy nac un mewn rhif (Deddf Llywodraeth Leol 1972 Adran 101). Gellir dirprwyo ychydig swyddogaethau i'r swyddogion, beth bynnag, ni ellir dirprwyo swyddogaethau i gynghorwyr unigol, gan gynnwys y Cadeirydd. **PENDERFYNIAD: Y Cadeirydd, Is-Gadeirydd; Y Cadeirydd Newydd Ymddeol a'r Clerc i fod yn gyfrifol am y dasg**. Yn ôl yr wybodaeth a gasglwyd gan Un Llais Cymru anodd yw cyflwyno ymateb i geisiadau cynllunio o fewn y 21 niwrnod heb son am y gostyngiad i 14 diwrnod. Er bod y gyfraith o'r farn bod 14 diwrnod yn ddigonol nid yw'r gostyngiad mewn amser yn hybu ymgynghoriad ystyrlon. Gellir amgyffred ei fod yn gwahardd cymunedau rhag cael y cyfle digonol i gyflwyno ymatebion.

9.5 Penderfynwyd ymateb i wahoddiad y Cyngor Sir i dderbyn ac i gyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio'n electronig. Mae'r ceisiadau electronig yn ffurfio oddeutu 30% o'r ceisiadau cynllunio a dderbynnir gan y Cyngor Tref.

10. CYLLID

10.1 Cyfraniadau:

10.1.1 £50.00- Papur Sain Ceredigion

10.2 Derbyniwyd neges o ddiolchgarwch oddi wrth Bwyllgor Eisteddfod Pantyfedwen Llambed am y rhodd o £1,000 at goffrau'r Eisteddfod.

10.3 Cyflog y Clerc (Awst) **£535.88**.

10.4 Golau/Gwres/Storio Dogfennau: £20.00

10.5 Treth Incwm a Chyfraniadau YC: £97.12

10.6 Ad-daliad £75 : PAYE y Clerc 2008-09 wedi ei gyflwyno'n electronig i'r *Cyllid Y Wlad.*

10.7 Ad-daliad £585 oddi wrth Mr Glenville Evans parthed y ffens newydd ym Mharc yr orsedd. Talwyd TAW yn gamarweiniol ar y gât. Ni chodir TAW ar y gât gan mai gât i'r anabl ydyw. Pris y ffens newydd a'r gwaith ychwanegol a gyflawnwyd gan Mr Evans yn Ebrill 2009 yw £9,230.89 (i gynnwys TAW) a £8,535.89 (heb TAW)

10.8 Hurio Festri Shiloh Cyfarfod 27/08/2009 £22.50

10.9 Hurio Neuadd yr Eglwys San Pedr – cyfarfodydd o'r 30/07/2009 a 25/06/2009 £45.

10.10 Penderfynwyd trafod yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer y CT ynglŷn â'r arian a adawyd mewn ewyllys gan roddwr a ddymuna fod yn anhysbys, ym 2005, yn ystod y cyfarfod nesaf y CT.

10.11 Trwydded Stryd CSC ar gyfer y bin ailgylchu £215

10.12 Y mae Yswiriant Cyfrifoldeb Cyhoeddus y Cyngor Tref wedi ei godi o £5miliwn i £6miliwn. Ni godir tâl ychwanegol tan Ionawr 2010 – yr amser pan adnewyddir polisi yswiriant y CT yn flynyddol.

10.13 Asesiad Risg y CT 2009-10: i'w gyflawni'n ystod y dyfodol agos.

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 LLWYBRAU CERDDED GAN GYNNWYS PARC-YR-ORSEDD

11.1.1 Parc-yr-orsedd: Y mae angen palu a gwella'r ardal y sglodion pren o gwmpas y sglefren. Penderfynwyd ceisio gwasanaeth gwirfoddolwyr d/l CAVO, Llambed (Y Cyng. Chris Thomas a'r Gyng. Mason-George oedd i gydlynu'r cynllun) – heb ei gyflawni.

11.1.2 Archwiliad Blynyddol o Feysydd Chwarae: Bydd Digley Associates Cyf yn cynnal archwiliad annibynnol blynyddol o'r safle Parc-yr-Orsedd yn ystod y dyfodol agos.

11.1.3 Adroddodd y Cyng. Carter fod Cerddwyr Llambed wedi gosod 6 gât pren mewn lle yng nghyffiniau Cae Dash. Y mae Kay Davies a James Williams, sy'n aelodau blaenllaw'r mudiad Cerddwyr Llambed yn annog

pobl i gerdded fel modd o gadw'n heini. Gobeithir gwobrwyo'r teitl "Tref Cerddwyr" i Lambed. Roedd aelodau'n hollol gefnogol i'r ymgyrch.

11.2 CAMERAU TCC

Adroddiad Misol ar gyfer Gorffennaf CSC: heb dderbyn yr adroddiad.

11.3 GOLEUADAU STRYD

Diffodd y Goleuadau Stryd rhwng hanner nos a 5am

Llythyr oddi wrth Mr Neil Garrod CSC ar y 14eg Awst yn hysbysu'r CT y bydd y gwaith i ddiffodd y goleuadau stryd yn ardal Llambed rhwng canol nos a 5am yn dechrau yn ystod y 2/3 wythnos nesaf. Wedi i'r gwaith gael ei gwblhau, bydd yn bosibl gweld yn glir pa oleuadau fydd yn aros ymlaen drwy'r nos neu'n diffodd canol nos yn ôl y rhif ar y label a osodwyd. Caiff label melyn â rhif arno ei osod ar bwys unrhyw olau a fydd yn diffodd canol nos. Bwriedir i'r goleuadau fydd yn parhau ymlaen drwy'r nos feddu ar label gwyn â rhif arno. Ymhlith yr eithriadau a fydd ynghyn drwy'r nos yw'r rhai hynny ynghanol trefi a nifer o oleuadau mewn lleoliadau lle nodwyd bod angen goleuadau drwy'r nos ee ger camerau TCC. Penderfynwyd yng ngyfarfod Cyllid y CT yn Ionawr 2009 i dderbyn cynigion y cyngor sir i ddiffodd goleuadau arbennig o fewn y dref yn ystod yr oriau penodedig. Beth bynnag cytunwyd i arolygu'r sefyllfa. Byddai asesiadau risg yn cael eu hymgymryd gan y CT yn ôl yr angen, i ddarganfod mannau â phroblemau a asesir mewn cysylltiad â'r heddlu.

11.4 PWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI

Cynhaliwyd cyfarfod yn ystod y noswaith cynt (Cofnodion yn amgaeëdig) Rhoddwyd caniatâd gan y CT i geisio cynigion ar gyfer torri'r glaswellt, bob pythefnos – 6 toriad o ganol Medi tan ddiwedd Tachwedd. Mae'r cae wedi ei dorri ddwy waith ar ôl derbyn y brydles gan GSC ar y 13/04/2009. Ymgymrwyd â'r toriad diwethaf ar ddiwedd Mehefin.

12. U.F.A.

12.1 Cinio ar gyfer yr Anghenus: Dydd Gwener 2ail o Hydref: bydd y CT yn gyfrifol am ddarparu'r ginio. Trefniadau pellach i ddilyn.

12.2 Adroddwyd fod cynfasau yn cael eu clymu ar yr arwyddion newydd ar fynedfeydd y dref ond nid oedd y pobl cyfrifol yn eu tynnu i ffwrdd. Gwirfoddolodd aelodau i wneud hyn.

12.3 Trafodwyd y bae beiciau ger maes parcio'r Sainsbury.

12.4 Gofynnodd y Gyng. Barton tybed a oedd trefniadau mewn lle gan y CSC i gynnal cyfarfodydd ymgynghorol â Chynghorau Tref a Chymuned. Y Clerc i geisio gwybodaeth pellach.

12.5 Mae'r sglodion pren sydd wedi eu lleoli o gwmpas planhigion ar faes parcio Sainsbury yn gorlifio oddi ar eu gwelyau penodedig. Y Maer i godi'r mater ag aelodau'r archfarchnad Sainsbury.

12.6 Penderfynwyd i geisio ymweliad â'r Ysgol Uwchradd ar gyfer taith dywysedig o'r adeiladau newydd.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cyfarfod i ben am 10.00pm.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Iau 24ain o Fedi am 7.30pm yn Neuadd yr Eglwys, San Pedr.

----------(Cadeirydd & Dyddiad)